Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Coronafeirws** |
| **DYDDIAD** | **17 Mawrth 2020** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Yn sgil yr argyfwng iechyd cyhoeddus presennol o ran y Coronafeirws, rwyf wedi gwneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn gymaint ag y bo modd rhag trosglwyddiad y feirws.

Yn unol â Rheoliad 3, rwy'n datgan bod mynychder neu drosglwyddiad y Coronafeirws newydd yn fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, ac yr ystyrir bod y mesurau a amlinellir yn y Rheoliadau hyn yn ffordd effeithiol o beri oedi o ran trosglwyddiad y feirws neu o'i atal rhag cael ei drosglwyddo ymhellach.